

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Diurnal

Lansiwyd Diurnal fel rhith fenter i edrych ar brinder triniaethau cydol oes ar gyfer afiechydon sy'n cael eu hachosi gan ddiffyg cydbwysedd hormonau. Bellach mae ar fin cyrraedd marchnad fyd-eang gwerth dros £200miliwn y flwyddyn.

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

Cyn hir bydd modd defnyddio Diurnal i roi triniaeth effeithiol cydol oes am y tro cyntaf i gleifion â chyflyrau fel hyperplasia adrenal cynhenid, a all arwain at ormod o flew ar yr wyneb, problemau mislifol, methiant yr arennau a marwolaeth hyd yn oed.

Gyda chymorth arian Llywodraeth Cymru, roedd modd i Diurnal ailddechrau datblygu yng nghanolfan MediCentre Caerdydd, a gwireddu'r cynnyrch. Roedd y ganolfan newydd yn rhoi mynediad i'r cwmni at gyllid Fusion IP, Cyllid Cymru ac Access Wales Llywodraeth Cymru, gan alluogi'r ddau aelod o staff i arwain profion clinigol o gyffuriau prototeip gyda phartneriaid gan gynnwys Simbec Research ym Merthyr Tudful. Hefyd darparwyd cysylltiadau i rannu gwybodaeth gydag Ysbyty Athrofaol Cymru.

Mae rhaglen ariannu Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Llywodraeth Cymru wedi galluogi Diurnal i gysylltu â phartneriaid datblygu Ewropeaidd a fydd yn rhoi mynediad iddynt at farchnadoedd byd-eang. Bydd y partneriaid hyn nawr yn gorffen y profion ar gleifion cyn cyflwyno triniaethau pediatrig cychwynnol i'r farchnad yn 2015, tra bod Diurnal yn cadw'r drwydded ar gyfer pob therapi ac yn bwriadu lansio cynnyrch i oedolion erbyn 2017.

Dywedodd Prif Swyddog Gweithredol Diurnal, Martin Whitaker: "Mae cynhyrchu unrhyw therapi newydd yn golygu proses ymchwil a datblygu helaeth. Dydy hynny ddim yn denu arian drwy ddulliau ariannu traddodiadol, preifat. Serch hynny, gydag arian Llywodraeth Cymru mae Diurnal wedi medru sefyll ar ei draed yn ariannol drwy gefnogaeth na fyddai wedi'i dderbyn fel arall."

Busnes Cymru
Business Wales

I wybod rhagor am gyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru:
**Ebost:** businesssupport@wales.gsi.gov.uk
**Gwefan:** busnes.cymru.gov.uk
**Ffôn:** 03000 6 03000

arloesi

WG17397 / © Hawlfraint y Goron 2014